


# DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG

## Lyndon Puddy

### Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus



**Mae ein maes gwasanaeth yn cwmpasu ystod eang o swyddogaethau cymorth strategol a gweithredol. Mae blwyddyn a oedd dan gysgod pandemig wedi herio pob gwasanaeth cyhoeddus, ond, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymdrechu i barhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, a hynny o ran adnoddau, canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny sydd fwyaf pwysig i'r cyhoedd, gan alluogi ein dinasyddion i gael hyd i'r gwasanaethau hynny. Ar y cyfan, mae'r tîm wedi perfformio'n dda ond mae bob amser lle i wella'n barhaus a mynd i'r afael â'r heriau wrth i ni i gyd ddod drwy'r pandemig. Bydd yr heriau hyn yn cael eu cynnwys o yn y cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau tîm.**

## Beth aeth yn dda...

- ✔ Fe wnaeth ein Gwasanaeth Cofrestryddion ddarparu gwasanaethau statudol ar lefelau digynsail yn ystod y pandemig, gan gofrestru genedigaethau a marwolaethau gydag urddas a pharch at drigolion.
- ✔ Fe wnaethom gynnal etholiadau Senedd ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a hynny'n ddiogel o ran Covid, ym mis Mai 2021, gan alluogi pobl leol i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- ✔ Cyfieithodd ein Tîm Iaith Gymraeg ymhell dros 1 miliwn o eiriau gan alluogi trigolion i dderbyn gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ✔ Fe wnaethom gynnal safon aur o ran ein Cofrestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) sy'n ein galluogi i ddefnyddio system mapio GIS yn gywir a sicrhau ein bod yn gwybod lle mae ein holl asedau adeiladu, hen a newydd wedi'u cofrestru.
- ✔ Fe wnaethom ddarparu seilwaith Cerbydau Trydan a 10 pwynt gwefru yn y fwrdeistref i helpu i liniaru yn erbyn effeithiau ehangach newid hinsawdd.
- ✔ Fe wnaethom lwyddo i wneud cais am £1.25 miliwn o gyllid GovTech i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio data a thechnolegau digidol i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- ✔ Fe wnaethom gynnwys pobl ifanc yn Fforymau Ieuenctid Torfaen a Gwent gan weithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg o ran y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddatblygu adnoddau sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb o ran cyfleoedd i'n pobl ifanc.
- ✔ Mae ein tîm cyfathrebu corfforaethol wedi canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth gyhoeddus hanfodol am reoliadau Covid a negeseuon iechyd cyhoeddus i gadw cymunedau'n ddiogel, a chyfleu unrhyw newidiadau a tharfu ar wasanaethau'r cyngor
- ✔ Gan weithio ledled Gwent, rydym wedi sefydlu byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol gyda phartneriaid er mwyn canolbwyntio ar wella canlyniadau i gymunedau Gwent yn y tymor byr, canolig a hwy yn y cymunedau y maen nhw'n byw.
- ✔ Rydym yn cefnogi dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gan gynnwys ymgynghori cymunedol, datblygu Cynllun Gweithredu Hinsawdd ac Argyfwng ynghyd â nodi data i sefydlu llinell sylfaen allyriadau carbon y Cyngor i gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030
- ✔ Mae'r timau Diogelwch a Chydlyniant Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gwent, Cynghorwyr a'r gymuned i liniaru tensiynau cymunedol trwy gydol y pandemig a lleihau a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl allan o'r system cyfiawnder troseddol.








# Heriau wrth symud ymlaen

| | Heriau | Atebion/Camau |
|---|---|---|
| **1** | Rheoli'r galw cynyddol ar y tîm Cofrestryddion a grëwyd pan agorwyd Ysbyty Athrofaol y Faenor | • Nodwyd adnoddau ychwanegol i ddelio â'r ôl-groniad o enedigaethau |
| **2** | Adnewyddu cyfarfodydd MAPI yn yr ysgol | • Adnewyddwyd yr ymgysylltu ac ailgychwynnwyd y cyfarfodydd Ymyrraeth Disgyblion Aml-Asiantaeth |
| **3** | Cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau cyrff cyhoeddus | • Hyrwyddo Rhaglen Arolygwyr Pobl Ifanc |
| **4** | Dod yn sero carbon net erbyn 2030 i fodloni ymrwymiad yr Argyfwng Hinsawdd a Natur | • Cynllun gweithredu yn nodi cyfrifoldebau arweiniol o bob rhan o'r Cyngor |
| **5** | Llunio Cynllun Llesiant Gwent sy'n ymateb i heriau llesiant lleol y cymunedau yn Nhorfaen | • Parhau i ddatblygu'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent, a Grwpiau Cyflawni Lleol |
| **6** | Ymwreiddio arfer da o ran Parhad Busnes ar draws y cyngor | • Darparu adnodd i Reoli Parhad Busnes, adolygu polisïau a datblygu cynlluniau gwasanaeth |
| **7** | Cynyddu Cyfranogiad y Cyhoedd ym materion y cyngor | • Ymwreiddio'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, hyfforddi staff a hyrwyddo defnyddio protocolau cyfranogiad ac adnoddau ymgysylltu |
| **8** | Cefnogi agenda digidol y cyngor | • Gwella teithiau digidol cwsmeriaid a gwasanaethau ar lein gan weithio gyda'r Prif swyddog newydd a'r tîm digidol |
| **9** | Cefnogi newidiadau i'r systemau etholiadol | • Cyflwyno gofynion ar gyfer dull adnabod pleidleiswyr fel y disgrifir yn y ddeddfwriaeth |